
# Ysgol Gwaelod y Garth School









# Llyfryn Gwybodaeth

# Dosbarth Meithrin

**Annwyl Riant/ Gwarcheidwad,**

**Croeso i Ysgol Gwaelod y Garth. Rydym yn hyderus y bydd cyfnod eich plentyn, a chi, gyda ni yn un hapus. Gobeithio bydd y llyfryn hwn o fudd i chi ac yn ateb llawer o'ch cwestiynau.**

**Diolch,**

**Mrs Cole a Staff y Meithrin**

## Gwybodaeth Cyswllt


Ysgol Gwaelod y Garth
Prif Ffordd
Gwaelod y Garth
Caerdydd
CF15 9HJ

Rhif ffôn:- 02920 810489
Rhif ffacs:- 02920 813457
Ebost:- ysgolgwaelodygarth@cardiff.gov.uk

Ein nod yn Ysgol Gwaelod y Garth yw i sicrhau bod ein disgyblion ...

...yn unigolion iach, hyderus ac hapus

...yn gyfranwyr mentrus a chreadigol

...yn ddinasyddion cyfrifol sy'n falch o'u cymuned, eu Cymreic-

....yn ddysgwyr annibynnol mewn byd sy'n newid yn gyson

## Trefniadau dechrau yn y Meithrin

Mae dechrau yn y dosbarth Meithrin yn gam mawr i lawer o blant ac weithiau yn un anodd. Ceisiwn ei wneud mor hawdd â phosib i'r plant ac i chithau fel rheini a gwarcheidwaid.

Ar ddechrau'r flwyddyn fe fydd plant y Feithrin yn cychwyn ar adegau gwahanol. Mae hyn yn sicrhau bod y grwpiau yn ddigon bach i'r staff medru rhoi digonedd o sylw i'r plant a'u helpu i ymgartrefi.

Deallwn ei bod hi'n anodd iawn i chi fel rhieni i adael eich plant os nad ydynt yn hapus ond mae plant yn setlo llawer ynghynt wedi i chi adael, ac mae hefyd angen i'r plant arfer â bod yn y dosbarth hebddoch chi. Mi wnaiff yr ysgol gysylltu â chi os nad ydynt yn setlo ac mae'n bosib i chi ffonio'r ysgol i ofyn sut maent os ydych yn poeni.  Mae'r staff yn gwneud pob dim posib i setlo'r plant oherwydd nid ydynt hwy chwaith yn hoffi gweld y plant yn anhapus.

## Oriau Ysgol

Sesiwn bore - 9.00 – 11:30
Sesiwn prynhawn - 1.00 - 3:30

Mae'n bwysig eich bod yn cyrraedd, ac yn casglu eich plentyn o'r Meithrin ar amser. Rhowch wybod i ni os bydd rhywun gwahanol yn casglu eich plentyn os gwelwch yn dda.



# Er mwyn helpu eich plentyn i setlo anogwch nhw i fod yn annibynnol - mae'n rhoi hyder iddynt.

Bydd o help i'ch plentyn os gall:-

- Fynd i'r tŷ bach yn annibynnol, tynnu'r dwr a golchi a sychu dwylo. (Mae'n bwysig iawn bod plant yn deall pwysigrwydd golchi dwylo'n dda fel nad yw germau yn cael eu lledu a'u gwneud yn sâl!)
- Gofalu am ei bethau/ phethau, er enghraifft, adnabod cot a'i roi ar fachyn.
- Gwisgo ei hun, er enghraifft, cot, crys-t, sanau ac esgidiau .
- Adnabod ei enw, fel y gall adnabod bachyn cot
- Tacluso a chymryd cyfrifoldeb am deganau fel 'plant mawr'! (bydd disgwyl iddynt wneud yn yr ysgol)
- Bwyta'n annibynnol, er enghraifft, defnyddio cwpan iawn, cyllell a fforc
- Bod yn gwrtais, cyfeillgar a chymdeithasol— bydd hyn yn help iddynt wneud ffrindiau ac ymgartrefu.



## Diod a byrbryd

Rydym yn darparu llaeth a byrbryd i'r plant bob dydd a gofynnwn am gyfraniad o £1.50 yr wythnos tuag at hyn. Mae'n bwysig bod arian yn dod mewn amlen gyda **en-w'ch plentyn arno** pob dydd Llun.
Mae hi'n bwysig eich bod yn dweud wrthym os oes alergedd gyda'ch plentyn oherwydd rydym yn amrywio'r bwyd rydym yn rhoi i'r plant.

## Dillad Addas

Rydym yn cynnnig addysg ddiddorol ac ymarferol i'r plant gan wneud y defnydd gorau posibl o'n hamgylchfyd wrth eu dysgu.
I wneud hyn mae angen eich cefnogaeth chi arnom!

- Mae plant yn mwynhau, yn cofio ac yn darganfod dros eu hunain pan fydd y gwaith yn ymarferol ac ar adegau mi fydd eu dillad yn mynd yn frwnt.
- **Plis sicrhewch bod enw eich plentyn ar bob dilledyn**. Yn anffodus bydd dillad dal yn mynd ar goll ac yn cael eu cymysgu ond gydag enwau arnynt mae hi'n llawer haws i ni geisio chwilio am ddillad coll.
- **Gwisgwch eich plant mewn dillad addas i'r tywydd**. Y dillad nid y tywydd sy'n anaddas i fynd allan! Byddwn yn ceisio mynd allan ym mhob tywydd – glaw, gwynt, haul, eira.
- Gofynnwn i chi ddanfod bâr o welis a chot law sbâr i ni gadw yn y ysgol.

## Dillad sbâr

Mae damweiniau yn digwydd, felly bydd angen bag gyda ddillad sbâr ac enw'ch plentyn arno yn yr ysgol bob dydd.

## Gwisg Ysgol

Gallwch brynu gwisg ysgol o
**YC Sports,**
**Yr Eglwys Newydd,**
**Caerdydd.**





## Salwch ac Absenoldeb

Os ydy'ch plentyn yn absennol a wnewch chi ffonio'r ysgol i roi gwybod cyn gynted â phosib. Er ein bod yn pwysleisio pwysigrwydd presenoldeb da, mae'n well cadw eich plentyn adref os yw'n sâl. Dydyn ni ddim eisiau iddynt drosglwyddo salwch i blant eraill nac i'r staff! Byddwn yn cysylltu â chi os ydy eich plentyn yn sâl yn yr ysgol.

## Meddyginaeth



Ni allwn rhoi meddyginiaeth i'ch plentyn yn yr ysgol ond os oes anghenion meddygol arbennig gan eich plentyn yna cysylltwch â'r ysgol.

## Cyswllt ysgol a chartref

Mae cyd-weithio rhwng yr ysgol a'r cartref yn hynod o bwysig ac mae'n bosib i chi helpu eich plentyn mewn amrywiaeth o ffyrdd.
Mi fyddwn yn ymaelaethu ar hyn yn ein cyfarfod Gweithdy Gwybodaeth ym Mis Medi.
Os oes gennych unrhyw bryderon am eich plentyn, mae croeso i chi drefnu apwyntiad gyda'r ysgol ar unrhyw adeg yn ystod y flwyddyn.
Byddwn yn danfon gwe bras o waith y tymor adref. Mae hwn yn fras iawn oherwydd bod ystod eang o allu yn y dosbarth ac oherwydd bod cynlluniau yn newid yn ôl ymateb a datblygiad y plant. Bydd hefyd gwybodaeth pwysig yn cael ei nodi ar fwrdd gwyn tu allan i'r Feithrin.

**Tymor yr hydref:-**Noson rieni i drafod sut mae'ch plentyn yn ymgartrefu.
**Tymor y gwanwyn:-** Noson rieni a chyfle i weld gwaith eich plentyn.
**Tymor yr haf:-** Adroddiad ysgrifenedig a noson agored i drafod os oes problem wedi codi gydag adroddiad eich plentyn.



## Ymddygiad Da a Chlod

- Mae staff yn modeli sut i drin eraill â pharch a charedigrwydd ac ymddygiad da. Anogir y plant i wneud yr un fath.
- Disgwylir y plant i fod yn gwrtais i eraill ac i ddefnyddio "egusodwch fi", "diolch", "os gwelwch yn dda/ plis"
- Dysgir, a disgwylir i'r plant drin offer yn ofalus, ac i dacluso ar eu hol
- Rhoddir clod yn rheolaidd am ymdrech/ llwyddiant/ ymddygiad/ agwedd bositif/ annibyniaeth/cwrteisi/ caredigrwydd a.y.b.

## Disgyblaeth

Mae disgyblaeth yn gadarn ond yn deg ac yn gyson.


Daw pob plentyn i'r ysgol â phatrymau ymddygiad gwahanol ond mae datblygu sgiliau Cymdeithasol a Phersonol yn rhan allwedol o'r hyd rydym yn gwneud yn y blynyddoedd cynnar. Rydym yn helpu'r plant i ddysgu sgiliau bywyd megis:-



- Sut i rannu
- Sut i aros tro
- Sut i weithio drwy anghydfod
- Nad ydym yn medru cael ein ffordd bob tro
- Sut i ddangos cardigrwydd ac empathi at eraill

Os oes gennych chi neu eich plentyn bryderon, trafodwch gyda'r athro dosbarth.

Rydym yn credu'n gryf ei bod hi'n bwysig rhannu gwybodaeth. Bydd yr ysgol yn trafod gyda chi hefyd os oes pryderon gan y staff am ymddygiad eich plentyn fel y medrwn cyd-weithio i'w oresgyn



## Ein Nodau ac Amcanion

Mae'r Cyfnod Sylfaen yn rhoi pwyslais mawr ar blant yn dysgu trwy wneud. Yn Ysgol Gwaelod y Garth bydd ein disgyblion ieuengaf yn cael profiadau uniongyrchol drwy chwarae a chymryd rhan. Byddant yn cael amser i ddatblygu eu sgiliau siarad a gwrando ac i fagu hyder wrth ddatblygu sgiliau darllen ac ysgrifennu. Mae'r ystafell ddosbarth, ardaloedd awyr agored a choetir lleol yn cyfuno i ffurfio'r amgylchedd dysgu i hyrwyddo archwilio a darganfod trwy brofiadau uniongyrchol. Maent yn hwyl, yn gyffrous, yn ysgogol ac yn ddiogel ac yn hybu datblygiad plant a chwilfrydedd naturiol i archwilio a dysgu. Bydd y saith maes dysgu canlynol yn cael eu datblygu, ac rydym wedi awgrymu ffyrdd y gallwch helpu i gefnogi dysgu eich plentyn.

## Iaith, Llythrennedd a Chyfathrebu

Anogir y plant i gyfathrebu trwy siarad, gwrando, ysgrifennu, darllen, chwarae creadigol a chwarae rôl. Anogir y plant i ddefnyddio'r Gymraeg trwy pob gweithgaredd yn ystod y dydd.


**Sut allwch chi helpu:-**
Os ydych yn poeni am sut i helpu siaradwch gydag athrawes eich plentyn. Os ydy'ch plentyn yn cymryd diddordeb mewn ysgrifennu cofiwch alw'r llythrennau wrth eu swn a chewch wybodaeth sut i ffurfio yn eich pecyn croeso. Mae rhaglenni addas i'r plant ar S4C bob dydd. Rhowch ganmoliaeth iddynt am wneud ymdrech. Byddwch yn fodel positif o bwysigrwydd angen dysgu, er enghraifft dangoswch eich bod yn un sy'n mwynhau darllen, a bod pwrpas i ddarllen ac ysgrifennu.



## Mathemateg a Rhfedd

Rhoddir amrywiaeth o brofiadau ymarferol i'r plant er mwyn hyrwyddo eu gwybodaeth, sgiliau a chysyniadau mathemategol yn meysydd siâp, gofod, patrwm, pwysau, mesur, rhif ac arian.


**Sut allwch chi helpu:-**
Gallwch dynnu sylw at gysyniadau mathemategol pob dydd er enghraifft, rhifau ar  ddrysau, cyfri wrth gerdded, arian wrth siopa. Gallwch gyfri sanau yn y fasged olchi neu tynnu sylw at  siapiau.





## Dyniaethau

Mae'r plant yn dysgu am y byd o'u hamgylch e.e. pobl sy'n ein helpu, byd natur, hanes a daearyddiaeth; dewis a defnyddio deunyddiau amrywiol; datrys problemau; gwneud dewisiadau; defnyddio ffynonellau gwybodaeth amrywiol; cysyniad amser; y tymhorau a bwyd.

**Sut allwch chi helpu:-**
Tynnwch sylw at y byd o'u cwmpas fel bod cyfleoedd yn codi o ddydd i ddydd. Trafodwch yn syml os yn bosib.





## Iechyd a Lles

Datblygu sgiliau mân (e.e. defnyddio pensil), a mawr (e.e. neidio) trwy amrywiaeth o weithgareddau.

**Sut allwch chi helpu:-**
Gall plant ddatblygu sgiliau mân trwy defnyddio pensil, brwsh paent, toes, torri gyda siswrn, cau botymau neu botel a.y.b. Gallant ddatblygu sgiliau mawr trwy daflu, dal neu gicio pel, neidio, mynd ar feic, dringo a.y.b.



**Celfyddydau Mynegiannol -**
Yn yr adran hon mae plant yn gwneud gwaith arlunio a chrefft (dewis amrywiaeth o ddeunyddiau a gwerthfawrogi gwaith eraill);cerddoriaeth (canu, gwrando ar gerddoriaeth a chwarae offeryn syml); chwarae rol a chwarae dychmygol.



**Sut allwch chi helpu:-**
Rhowch gyfleoedd i'ch plant arbrofi gydag amrywiaeth o ddeunyddiau e.e. pensiliau, creonau, deunydd 'collage', siswrn, glud. Anogwch eich plentyn i ganu, gwrando ar amrywiaeth o gerddoriaeth ac i chwarae offeryn syml. Rhowch gyfleoedd iddynt chwarae'n ddychmygol er enghraifft gyda doli, dillad gwisgo lan.







**Gwyddoniaeth a Thechnoleg**
Rydym yn ceisio datblygu'r plant fel unigolion uchelgeisiol.Byddant yn cael cyfle i wneud hyn trwy chwarae a gweithgareddau eraill fel unigolion, par, grwp a dosbarth cyfan. Rydym yn eu hannog i gyfathrebu ag eraill ac i fod yn hyderus, annibynnol a chyfrifol.

**Sut allwch chi helpu:-**
Siaradwch yn bositif gyda'ch plentyn am ffrindiau, gweithgareddau a.y.b. Anogwch nhw i fod yn annibynnol a chyfrifol e.e. i dacluso eu teganau, gwisgo eu hunain a rhannu.

## Cyn y gall eich plentyn ysgrifennu rhaid iddynt fedru



- Datblygu cyhyrau cryf yn eu dwylo, ysgwyddau a chraidd.
- Tynnu llun dynol
- Mwynhau defnyddio pensil a'i ddefnyddio'n gywir (peidiwch cywiro os defnyddir y llaw chwith)
- Sylwi ar wahaniaethau bach mewn lluniau (mae llythrennau fel p, d, b yn debyg iawn)
- Dilyn llinell gyda'i bys
- Tros ysgrifennu llinellau (syth ac igam-ogam)
- Dilyn a copio patrwn dilyniannol
- Mwynhau a cael digon o brofiadau esgus ysgrifennu



## Cyn gall eich plentyn ddechrau darllen rhaid iddynt fedru



- Mwynhau gwrando ar storiau ac eisiau darllen
- Trin llyfrau'n gywir
- Siarad am luniau
- Sylwi am bethau tebyg a gwahanol
- Darganfod dau lun yr un fath
- Deall fod gan brint ystyr
- Sylwi ar eiriau o'i cwmpas (e.e. labeli bwyd, ar ddillad)
- Deall ein bod yn darllen o'r chwith i'r dde ac o'r top i'r gwaelod
- Medru copio a dilyn patrwm dilyniannol
- Adnabod rhan fwyaf o synau
- Gwybod rhai geiriau e.e. ei enw, enwau teulu

Mae plant yn datblygu ar adegau gwahanol. Rydym yn awyddus iawn i chi gefnogi eich plant ond peidiwch rhoi pwysau arnynt i ddatblygu cyn eu bod nhw'n barod.

# Atebion i rhai o'ch cwestiynau

**Pa fantision sydd i fy mhlentyn fod yn ddwyieithog?**

- Mae ymchwil yn dangos fod plant sy'n siarad mwy nag un iaith yn gallu meddwl yn fwy creadigol a hyblyg
- Mae manteision economaidd o fod yn ddwyieithog, yn enwedig pan yn chwilio am swydd yng Nghymru
- Mae siarad iaith arall yn agor drysau i amrywiaeth o gyfleoedd a gweithgareddau gwahanol
- Mae'n cynnig y cyfle i brofi diwylliant gwahanol a dau fyd o brofiad
- Gall helpu pobl i deimlo'n rhan o Gymru a chynyddu'r teimlad o berthyn
- Dwy iaith—dwywaith y dewis a dwywaith y cyfleoedd

**Ydy Cymraeg yn iaith anodd i'w ddysgu?**
Nac ydy! Gyda chefnogaeth gall unrhyw blentyn ddysgu'r Gymraeg.

**A yw plant yn cymysgu rhwng y ddwy iaith?**

- Yn y dechrau bydd rhai plant yn defnyddio cymysgedd o'r ddwy iaith ond cyn hir byddant yn gallu gwahaniaethu rhwng y ddwy iaith. Byddant yn ateb yn yr iaith mae'r person sy'n siarad â nhw yn defnyddio.
- Mae ymchwil yn dangos fod y gallu i siarad mwy nag un iaith yn gwella gallu plant i ddysgu a defnyddio ieithoedd yn gyffredinol
- Mae canlyniadau diweddar hefyd yn awgrymu bod plant sy'n derbyn addysg ddwyieithog yn gallu gwneud yn well mewn pynciau ar draws y cwricwlwm gan gynnwys Saesneg

**Os ydy un rhiant yn siarad Cymraeg, sut allant helpu?**
Mae hyn yn sefyllfa gyffredin yng Nghymru. Mae'n bwysig fod y rhiant sy'n medru siarad Cymraeg yn siarad Cymraeg gyda'r plentyn cymaint a phosib. Mae hefyd yn bwysig eich bod yn dangos agwedd bositif at yr iaith. Dangoswch eich bod yn mwynhau siarad Cymraeg a bydd eich plentyn yn hefyd!

**Sut bydd y rhiant na all siarad Cymraeg yn teimlo a sut allant helpu?**

- Nid oes rhaid iddynt deimlo allan ohoni. Mae'r rhan fwyaf o blant wrth eu bodd yn yn esbonio beth sy'n cael ei ddweud yn Gymraeg!
- Mae'n bwysig eu bod nhw'n cefnogi'r plentyn ac yn cymryd diddordeb.
- Gall fod o help i'ch plentyn drafod yn Saesneg yr hyn maent wedi dysgu yn Gymraeg

**Rwy'n hoffi darllen gyda fy mhlentyn, oes rhaid darllen yn Gymraeg?**
Nac oes, darllen gyda nhw sy'n bwysig. Unwaith bydd eich plentyn wedi dysgu darllen byddant yn defnyddio'r un sgiliau i ddarllen yn y Gymraeg ac yn Saesneg.